**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR GWAITH**

**SUBJECT:** **PWYLLGOR GWAITH - DYDD MERCHER, 9 RHAGFYR 2020 DYDD MERCHER, 9 RHAGFYR 2020**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: N. DANIELS (CADEIRYDD)

Councillors J. Collins
D. Davies
J. Mason
J. Wilkins

WITH:

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| **No. 1** | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Rheolwr Gyfarwyddwr. | |
| **No. 3** | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**<br><br>Codwyd y datganiadau buddiant dilynol:-<br>Cynghorydd N. Daniels – Eitem rhif 18<br>Cynghorydd J. Mason – Eitem rhif 25 | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| | **COFNODION** | |
| **No. 4** | **PWYLLGOR GWEITHREDOL**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Hydref 2020.<br><br>PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 5** | **CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR GWEITHREDOL**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2020.<br><br>PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion. | |
| | **MATERION CYFFREDINOL** | |
| **No. 6** | **CYNADLEDDAU, CYRSIAU, DIGWYDDIADAU A GWAHODDIADAU**<br><br>Cyfeiriodd yr Arweinydd at y cwrs dilynol:-<br><br>Cyflwyniad i Orfodaeth Cynllunio – Hyfforddiant Ar-lein – 09/11/2020<br><br>PENDERFYNWYD rhoi cymeradwyaeth i'r Cynghorwyr D. Hancock a W. Hodgins, Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio i fynychu. | |
| | **EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION GWASANAETHAU CORFFORAETHOL** | |
| **No. 7** | **BLAENRAGLEN GWAITH – 13 IONAWR 2021**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Arweinydd y Cyngor. | |

| | | |
|---|---|---|
| | PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 8** | **<u>CYFRIF SYLFAEN Y DRETH GYNGOR AM Y FLWYDDYN 2021/22</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau ei bod yn ofyniad statudol i'r Cyngor i gyfrif y sylfaen Treth Gyngor ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Roedd y sylfaen Treth Gyngor yn fesur o allu codi trethi yr Awdurdod a fynegwyd yn nhermau nifer yr anheddau cyfwerth â Band D gan roi ystyriaeth i ostyngiadau eithriadau.<br><br>Dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau y cafodd y sylfaen Treth Gyngor am y flwyddyn bresennol 20920/201 ei osod ar 20,662.45 ac ar gyfer 2021/22 cynigiodd y dylai'r sylfaen Treth Gyngor fod yn 20,794.09, sy'n dangos cynnydd o 222 annedd yn ystod y 12 mis diwethaf.<br><br>Esboniodd y Prif Swyddog ymhellach y cynhaliwyd adolygiad o gasglu'r dreth gyngor yn ystod 2019 a arweiniodd at rai newidiadau mewn dulliau casglu. Er bod arwydd cynnar o welliant mewn cyfraddau casglu yn 2019/2020, cafodd y pandemig coronafeirws effaith sylweddol ar gyfraddau cyfredol casglu treth gyngor ar draws Cymru a rhagwelwyd y byddai hyn yn parhau i 2021/22. Teimlai'r Prif Swyddog Adnoddau felly y byddai'n ddarbodus amcangyfrif y caglu o fewn y flwyddyn ar gyfer 2021/2022 i barhau ar 95%.<br><br>Croesawodd y Pwyllgor Gweithredol yr adroddiad ac roedd yn dda nodi'r nifer anheddau. Dywedwyd fod datblygwyr yn parhau i fod â llawer o ddiddordeb ym Mlaenau Gwent er gwaethaf y pandemig.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chymeradwyo cyfrifiad sylfaen Treth Gyngor ar gyfer 2021/22 fel y manylir yn Atodiad 1 tablau 1 i 6 yr adroddiad ac y bydd y sylfaen teth gyngor ar gyfer dibenion gosod treth yn 20,794.09. | |
| **No. 9** | **<u>GRANTIAU I SEFYDLIADAU</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Adroddwyd y grantiau ychwanegol dilynol:-<br><br>**<u>ABERTYLERI</u>**<br><br>**<u>Ward Cwmtyleri - Cynghorydd T. Sharrem</u>**<br><br>1. Cyfeillion Pentref Blaenau Gwent | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 2. | Eglwys Fethodistaidd Blaenau Gwent | £100 |
| | 3. | Clwb Rygbi  BG Abertyleri | £75 |
| | 4. | Clwb Pêl-droed Belles Abertyleri | £75 |
| | 5. | Clwb Pêl-droed Bluebirds Abertyleri | £75 |
| | 6. | Eglwys Sant Paul | £50 |
| | 7. | Neuadd Eglwys Sant Paul | £50 |
| | 8. | Clwb Bowls Six Bells | £75 |
| | 9. | Clwb Bowls Abertyleri | £75 |
| | 10. | Clwb Colomennod Cwmtyleri | £75 |
| | 11. | Chillax | £50 |
| | 12. | Clwb Pysgota Abertyleri | £75 |
| | 13. | Abertillery Excelsiors | £75 |
| | 14. | Clwb Rygbi Old Tylerians | £75 |
| | 15. | Canolfan Gymunedol Bourneville | £75 |
| | 16. | Eglwys Bedyddwyr Blaenau Gwent | £50 |
| | 17. | Banc Bwyd Eglwys Bedyddwyr | £50 |
| | **Ward Llanhiledd – Cynghorydd J. Collins** | | |
| | 1. | Clwb Llan | £150 |
| | 2. | Cymdeithas Tenantiaid a Phreswylwyr Llanhiledd | £300 |
| | **Ward Llanhiledd - Cynghorydd L. Parsons** | | |
| | 1. | Clwb Llan | £150 |
| | **NANTYGLO A BLAENAU** | | |
| | **Ward Blaenau - Cynghorydd J. Morgan** | | |
| | 1. | Clwb Rhieni ac Athrawon Ysgol Gynradd Ystruth | £150 |
| | 2. | Clwb Chwaraeon Cymunedol Blaenau | £500 |
| | **Ward Blaenau - Cynghorydd L. Winnett** | | |
| | 1. | Clwb Rhieni ac Athrawon Ysgol Gynradd Ystruth | £150 |
| | 2. | Clwb Chwaraeon Cymunedol Blaenau | £500 |
| | **Ward Blaenau - Cynghorydd G. Collier** | | |
| | 1. | Clwb Rhieni ac Athrawon Ysgol Gynradd Ystruth | £150 |
| | **Ward Nantyglo - Cynghorwyr J. Mason a K. Rowson** | | |
| | 1. | Ymddiriedolaeth Mynwentydd Hermon | £200 |
| | 2. | Grŵp 1$^{af}$ Sgowtiaid Blaenau | £200 |
| | **Ward Nantyglo - Cynghorydd P. Baldwin** | | |
| | 1. | BGfm | £200 |
| | 2. | Ymddiriedolaeth Mynwent Hermon | £200 |
| | 3. | Neuadd Pensiynwyr Nantyglo | £100 |
| | 4. | Neuadd Pensiynwyr Winchestown | £100 |
| | 5. | Eglwys Fethodistaidd Wesleaidd | £100 |
| | 6. | Eglwys y Drindod Sanctaidd Santes Anne | £100 |
| | 7. | Clwb Coedcae Interact | £50 |

| | | |
|---|---|---|
| | 8. Siop Gymunedol Nantyglo<br>9. Clwb Rygbi Nantyglo<br><br>**BRYNMAWR**<br><br>**Ward Brynmawr – Cynghorydd J. Hill**<br><br>1. Cyfeillion Interact Gogledd Ebwy Fach<br><br>**TREDEGAR**<br><br>**Ward Georgetown a Canol & Gorllewin – Cynghorwyr K. Hayden a J. Morgan a S. Thomas a H. Trollope a B. Willis**<br><br>1. Clwydi Coffa Glowyr Tredegar<br><br>**Ward Canol & Gorllewin – Cynghorydd M. Moore**<br><br>1. Clwydi Coffa Glowyr Tredegar<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | £100<br>£150<br><br><br><br><br><br>£100<br><br><br><br><br><br>£200<br><br><br><br>£200 |
| | **EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION ADDYSG** | |
| **No. 10** | **POLISI DIOGELWCH AR-LEIN 360 GRADD AR GYFER YSGOLION**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg fod yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gweithredol i'r polisi Diogelwch Ar-lein 360 Gradd. Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod y polisi a gynigir yn dangos ymagwedd integredig at ddiogelwch ar-lein ar draws pob ysgol a gofynnwyd am sylwadau gan ysgolion drwy'r Arweinwyr Dynodedig ar Ddiogelu ac y byddai angen i'r polisi gael ei gymeradwyo gan gyrff llywodraethu ysgolion.<br><br>Teimlai'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg fod yr adroddiad yn amserol gydag ysgolion yn darparu dysgu cyfunol mewn ymateb i Covid-19 a bod Arweinwyr Dynodedig ar Ddiogelu wedi croesawu'r polisi. Mae'r polisi yn annog ysgolion i wneud defnydd llawn o'r technolegau digidol sydd ar gael i ymgysylltu â dysgwyr a gwella deilliannau dysgwyr.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 11** | **POLISI DIOGELU GWASANAETHAU ADDYSG LLYWODRAETH LEOL** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg mai diben yr adroddiad yw ceisio cymeradwyaeth i bolisi Diogelu Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol Blaenau Gwent yn dilyn ei adolygiad blynyddol. Siaradodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol am yr adroddiad a nododd y diweddariadau a wnaed i'r polisi, fel sy'n dilyn:-<br><br>• Cyfeiriad at Weithdrefnau Diogelu Cymru 2019, yn disodli'r cyfeiriad blaenorol at Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru 2008;<br>• Cynnwys polisi diogelu Gwasanaeth Ieuenctid Blaenau Gwent yn atodiad 3 y polisi;<br>• Cynnwys y protocol casglu data diogelu; a<br>• Chynnwys atodiad COVID-19 i adlewyrchu'r sefyllfa bresennol a chadarnhau gweithdrefnau hysbysu am bryderon. Gellir diweddaru'r atodiad hwn yn gyson wrth i'r sefyllfa argyfwng ddatblygu a newid.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1 cyn i Bolisi Diogelu y Gyfarwyddiaeth Addysg gael ei ddosbarthu i ysgolion. | |
| | **<u>EITEMAU MONITRO - GWASANAETHAU CORFFORAETHOL</u>** | |
| **No. 12** | **<u>MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW -2020/2021, RHAGOLWG ALLDRO HYD AT 31 MAWRTH 2021 (FEL AR 30 MEDI 2020)</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau fod yr adroddiad yn rhoi rhagolwg sefyllfa alldro ariannol ar draws pob portffolio ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/2021 fel ar 30 Medi 2020. Roedd amrywiad anffafriol o £3.402m cyn derbyn cyllid Caledi Llywodraeth Cymru a ostyngodd y rhagolwg amrywiad anffafriol i £0.248m. Roedd hyn yn sefyllfa well na'r rhagolwg ym mis Mehefin 2020 oedd yn nodi amrywiad anffafriol o £1.2m. Siaradodd y Prif Swyddog ymhellach am y sefyllfa ariannol ar draws pob portffolio ac amlinellu'r pwyntiau allweddol fel y'u manylir yn yr adroddiad.<br><br>Dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau fod yr atodiadau'n cynnwys gwybodaeth ar ffioedd a chostau yn ogystal â chynnydd ar raglen Pontio'r Bwlch. Mae'r Atodiadau hefyd yn manylu camau gweithredu ar gyfer deiliaid cyllideb i liniaru unrhyw bwysau cost a gaiff eu rhagweld. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Roedd yr Arweinydd yn ymwybodol fod yr Aelodau Gweithredol ar ben eu hunain ac ar y cyd yn monitro cyllidebau ac oherwydd y sefyllfa bresennol teimlai fod y cyllidebau wedi eu rheoli'n dda gan ddeiliaid cyllideb. Credai fod y Cyngor mewn sefyllfa resymol a gobeithiai, gyda'r cymorth a werthfawrogir yn fawr gan Lywodraeth Cymru i lywodraeth leol, y byddai'n helpu'r Cyngor i gael cyllideb gytbwys.<br><br>Dywedodd yr Arweinydd y byddai arwyddion cyllideb y flwyddyn nesaf yn cael eu cyhoeddi ar 22 Rhagfyr 2020 ac y gobeithir y bydd y Cyngor yn parhau â'r gwaith ardderchog ar reoli ariannol a gyflawnwyd mewn blynyddoedd blaenorol.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a bod yr her briodol yn cael ei rhoi i'r deilliannau ariannol yn yr adroddiad. | |
| **No. 13** | **<u>MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF, RHAGOLWG AR GYFER BLWYDDYN ARIANNOL 2020/2021 (FEL AR 30 MEDI 2020)</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau fod yr adroddiad yn rhoi trosolwg o wariant cyfalaf gwirioneddol a rhagolwg pob Portffolio o gymharu â chymeradwyaeth cyllid ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/2021 fel ar 30 Medi 2020. Siaradodd y Prif Swyddog am yr adroddiad ac amlinellodd y pwyntiau allweddol ynddo.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad, a<br><br>• rhoi'r her briodol i'r deilliannau ariannol yn yr adroddiad.<br>• parhau i gefnogi gweithdrefnau rheoli ariannol priodol a gytunwyd gan y Cyngor.<br>• nodi gweithdrefnau rheoli a monitro'r gyllideb sydd yn ei lle o fewn y Tîm Cyfalaf i ddiogelu cyllid yr Awdurdod. | |
| **No. 14** | **<u>DEFNYDD CRONFEYDD WRTH GEFN CYFFREDINOL AC WEDI'U CLUSTNODI 2020/2021</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Dywedodd yr Arweinydd y cafodd y Cyngor ei feirniadu mewn blynyddoedd blaenorol am lefelau isel y cronfeydd wrth gefn, fodd | |

| | | |
|---|---|---|
| | bynnag dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf rydym wedi sicrhau y cymerwyd camau cadarnhaol i adfer cronfeydd wrth gefn i lefel dderbyniol.<br><br>Ar y pwynt hwn, gwahoddodd yr Arweinydd y Prif Swyddog Adnoddau i roi trosolwg o'r adroddiad. Nododd y Prif Swyddog Adnoddau y prif bwyntiau a gynhwysir yn yr adroddiad a chyfeiriodd at y sefyllfa rhagolwg ar gyfer y gronfa gyffredinol wrth gefn ar ddiwedd blwyddyn 2020/2021 a fyddai'n ostyngiad o £0.048m i £6.387m. Byddai'r balans hwn yn 4.72% o wariant refeniw net, £0.973m uwch na'r lefel targed o 4% o £5.414m. Mae'r ffigurau hyn yn dangos cynnydd pellach tuag at gryfhau cydnerthedd ariannol y Cyngor a rhoi clustog i ddelio gyda phroblemau annisgwyl yn y dyfodol. Byddai angen lliniaru'r amrywiad anffafriol a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn os na fyddent wedi eu trin, fodd bynnag byddai lefel y cronfeydd wrth gefn yn dal i fod yn uwch na'r targed a osododd y Cyngor i ni ein hunain.<br><br>Croesawodd yr Arweinydd yr adroddiad a theimlai ei fod yn dangos ymrwymiad y Cyngor i drin ein cadernid ariannol. Gobeithiai'r Arweinydd y byddai deiliaid cyllideb yn parhau i weithio'n galed i ddileu'r diffygion cyllideb i atal defnyddio arian o gronfeydd wrth gefn y Cyngor.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ac:<br><br>• ystyried yr effaith y byddai'r amrywiad anffafriol o £0.248m ar gyfer 2020/21 yn ei gael ar y cyfraniad yn y gyllideb at y Gronfa wrth Gefn Gyffredinol; a<br>• nodi'r gostyngiad a ragwelir yn y Gronfa wth Gefn Gyffredinol yn 2020/2021 i £6.387m, sef 4.72% o'r gwariant refeniw net (uwch na'r lefel targed o 4%);<br>• parhau i herio gorwariant y gyllideb a gweithredu cynlluniau gweithredu gwasanaeth priodol lle bo angen. | |
| **No. 15** | **<u>ADRODDIAD BLYNYDDOL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU 2019/2020</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a bod y Pwyllgor Gweithredol wedi cael gwybodaeth am berfformiad y Cyngor yng | |

| | | |
|---|---|---|
| | nghyswllt cwynion a wnaed i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ac y cafodd yr adroddiad ei atgyfeirio at y Pwyllgor Archwilio am sicrwydd fod y broses ar gyfer monitro cwynion yn gadarn a bod yr wybodaeth perfformiad a roddwyd wedi adlewyrchu'r arferion hyn. | |
| | **<u>EITEMAU MONITRO - YR AMGYLCHEDD</u>** | |
| **No. 16** | **<u>CYNLLUN RHEOLI RISG LLIFOGYDD (2016- 2022)</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r cynnydd a wnaed dros y 12 mis blaenorol. | |
| **No. 17** | **<u>ADRODDIAD BLYNYDDOL 2019/20 BLAENGYNLLUN CYDNERTHEDD BIOAMRYWIAETH AC ECOSYSTEM (2019-2022)</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi Opsiwn 2, sef y dylid nodi'r adroddiad blynyddol a'r gweithgaredd a argymhellir eleni i gyflawni Dyletswydd Adran 6. | |
| | **<u>EITEMAU MONITRO - ADDYSG</u>** | |
| **No. 18** | **<u>CANLYNIAD YR ADOLYGIAD HAMDDEN A MONITRO PERFFORMIAD YMDDIRIEDOLAETH HAMDDEN ANEURIN</u>**<br><br>Datganodd yr Arweinydd fuddiant yn yr eitem hon, fodd bynnag caniatawyd iddo aros yn y cyfarfod yn ystod trafodaethau.<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg.<br><br>Croesawodd Aelod Gweithredol Addysg yr adroddiad a fyddai'n | |

| | | |
|---|---|---|
| | cryfhau'r berthynas waith rhwng yr Ymddiriedolaeth a'r Awdurdod Lleol.<br><br>Cyfeiriodd yr Aelod Gweithredol at Atodiad 3 a chynigiodd y dylai'r cyfarfodydd fod bob chwarter yn hytrach na dwywaith y flwyddyn fel yr awgrymwyd, gyda chyfarfodydd ychwanegol i gael eu galw fel a phan fo angen.<br><br>PENDERFYNWYD yn unol â hynny.<br><br>PENDERFYNWYD YMHELLACH, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 19** | **<u>DEILLIANNAU 2019-2020: CYFNOD SYLFAEN, CYFNOD ALLWEDDOL 2, CYFNOD ALLWEDDOL 3, CYFNOD ALLWEDDOL 4</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg.<br><br>Amlinellodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol yr adroddiad a nodi fod adroddiadau perfformiad ysgol wedi llacio oherwydd pandemig Covid-19. Roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn falch i nodi fod perfformiad wedi gwella yn CA4 ar draws ysgolion a bod y canlyniadau yn unol â'r targed a nodwyd yn y Cynlluniau Datblygu Ysgolion perthnasol.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 20** | **<u>GWASANAETHAU ADDYSG BLAENAU GWENT DRAFFT GANFYDDIADAU HUNANARFARNU</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg.<br><br>Siaradodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg am yr adroddiad ac amlinellodd y prosesau hunanarfarnu a wnaed o fewn y Gyfarwyddiaeth Addysg, ar draws y Cyngor a gyda phartneriaid allweddol. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ymhellach at y meysydd lle gwnaed cynnydd da a thrafod meysydd lle mae angen | |

| | | |
|---|---|---|
| | gwelliannau pellach.<br><br>Croesawodd yr Aelod Gweithredol Addysg yr adroddiad a dymunai gydnabod Gwasanaeth Ieuenctid Blaenau Gwent. Bu llawer o feysydd gwella yn y Gwasanaeth Ieuenctid ac mae ganddo agweddau o arfer ardderchog. Dywedodd yr Aelod Gweithredol fod y Gwasanaeth Ieuenctid wedi rhagori ar gyfartaledd Cymru-gyfan ac yn gyd-enillwyr Gwobr Genedlaethol gwaith Ieuenctid.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 21** | **<u>CRYNODEB DEILLIANNAU AROLYGU AR GYFER SEFYDLIADAU ADDYSGOL – TYMOR YR HYDREF 2019 A THYMOR Y GWANWYN 2020</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg fod yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth monitro perfformiad yng nghyswllt yr arolygiadau a gynhaliwyd gan Estyn o sefydliadau addysgol a diweddariad ar y deilliannau arolygu ar gyfer ysgolion a arolygwyd yn ystod tymor yr Hydref 2019 a thymor y Gwanwyn 2020. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y cynhaliwyd yr arolygiadau hyn yn 2019/2020 ac y cafodd cyhoeddi ei ohirio oherwydd yr ymateb argyfwng i Covid-19.<br><br>Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg ymhellach at y tri arolwg a gynhaliwyd a rhoddodd drosolwg o'r adborth a gafwyd.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 22** | **<u>CYFARWYDDIAETH ADDYSG – YMATEB I COVID-19</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg fod yr adroddiad yn rhoi cyfle i'r Pwyllgor Gweithredol adolygu ymateb y Gyfarwyddiaeth Addysg i sefyllfa COVID-19, yn arbennig gefnogi | |

| | | |
|---|---|---|
| | ysgolion yn ystod y cyfnod argyfwng. Siaradodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol am yr adroddiad ac amlinellodd y gwaith a wnaethpwyd mewn cysylltiad gyda chydweithwyr corfforaethol ac ysgolion.<br><br>Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol at benderfyniad Blaenau Gwent i symud i ddysgu o bell o 10 Rhagfyr 2020 a dywedodd y seiliwyd y penderfyniad ar dystiolaeth cyfraddau heintiad ym Mlaenau Gwent. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol mai Blaenau Gwent sydd â'r 3ydd nifer uchaf o achosion ledled Cymru ar hyn o bryd gyda 574 achos fesul 100,000. Mae'r ffigurau hyn wedi cael effaith sylweddol ar ein hysgolion gan effeithio ar 19 allan o 25 ysgol. Mae 1300 o ddisgyblion a 66 aelod o staff i ffwrdd o'r ysgol yn hunanynysu ar hyn o bryd.<br><br>Cafodd y ffigurau hyn effaith sylweddol ar ddysgu wyneb i wyneb ac felly mae rhesymau cadarn dros symud i ddysgu o bell.<br><br>Roedd cefnogaeth wleidyddol a phroffesiynol gref gyda chefnogaeth unfrydol gan benaethiaid ysgol. Mae'r Athro Iechyd Cyhoeddus, Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Rheoli Heintiad wedi cefnogi ymagwedd Blaenau Gwent. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddai'r Awdurdod yn rhoi cefnogaeth i ddysgwyr bregus a phrydau ysgol am ddim yn ystod y cyfnod hwn.<br><br>Dywedwyd fod penaethiaid ysgol wedi teimlo y byddai dysgu o bell yn fwy effeithlon yn yr amgylchiadau presennol. Daeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg i ben drwy ddweud fod y penderfyniad i symud i ddysgu o bell yn benderfyniad lleol wedi'i seilio ar y sefyllfa leol, oedd yn iawn ar yr adeg hon.<br><br>Dymunai'r Aelod Gweithredol Addysg ddymuno i'r Gyfarwyddiaeth Addysg am eu hymateb rhagorol i bandemig COVID-19. Cytunodd yr Aelod Gweithredol gyda sylwadau'r Cyfarwyddwr Corfforaethol a dywedodd bod y penderfyniad i symud i ddysgu cyfunol yn seiliedig ar resymeg gref. Roedd y penderfyniad wedi derbyn cefnogaeth unfrydol gan benaethiaid ysgol ac wedi'i groesawu'n neilltuol yng nghlwstwr Tredegar lle bu ysgolion ar gau oherwydd y cynnydd mewn heintiad. Roedd yr Aelod Gweithredol yn llwyr gefnogi penderfyniad Arweinyddiaeth y Cyngor a theimlai fod hwn yn benderfyniad da i Flaenau Gwent.<br><br>Roedd yr Arweinydd hefyd yn cefnogi'r penderfyniad i symud i ddysgu cyfunol ar draws pob ysgol ym Mlaenau Gwent a | |

| | | |
|---|---|---|
| | dywedodd nad oedd yn benderfyniad a gymerodd y Cyngor yn ysgafn. Teimlai bod Aelod Gweithredol Addysg a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg wedi cymryd y penderfyniad gorau i Flaenau Gwent. Cafodd gefnogaeth unfrydol gan ysgolion a'i groesawu gan rieni.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo.<br><br>- | |
| | **<u>EITEMAU MONITRO - GWASANAETHAU CYMDEITHASOL</u>** | |
| **No. 23** | **<u>DIWEDDARIAD AR STRATEGAETH I OSTWNG YN DDIOGEL Y NIFER O BLANT SY'N DERBYN GOFAL</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol fod yr adroddiad yn rhoi diweddariad cynnydd ar strategaeth tair blynedd i ostwng yn ddiogel y nifer o blant sy'n derbyn gofal. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y bu gostyngiad araf ond cyson yn nifer y plant sy'n derbyn gofal o uchafbwynt o 237 i 205 fel ar heddiw ers y cyflwynwyd y strategaeth. Mae'r Awdurdod wedi defnyddio cyllid ychwanegol yn llwyddiannus o'r Gronfa Gofal Integredig sydd wedi cynorthwyo mewn gwella'r strategaeth a chefnogi ein hamcanion o gadw teuluoedd gyda'i gilydd a rhoi cefnogaeth i deuluoedd ar ymyl gofal. Cafodd y strategaeth ei gwerthuso'n annibynnol ac mae'n cael ei hadfywio ar hyn o o bryd ar gyfer strategaeth newydd yn 2021.<br><br>Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod y gwaith a wnaed wedi helpu i gadw teuluoedd ynghyd a hefyd ostwng nifer y plant a gaiff eu gosod mewn gofal preswyl. Mae hyn wedi helpu'r gyllideb Gwasanaethau Cyhoeddus, fodd bynnag mae costau cyfreithiol yn parhau'n uchel ond rydym wedi ail-agor trafodaethau gydag awdurdodau lleol cyfagos ar gymorth cyfreithiol posibl. Cafodd y gwaith hwn lawer o adborth cadarnhaol gan staff a theuluoedd.<br><br>Croesawodd yr Aelod Gweithredol Gwasanaethau Cymdeithasol | |

| | | |
|---|---|---|
| | yr adroddiad sy’n rhoi sylw i waith cadarnhaol Gwasanaethau Plant a dymunai fynegi ei ddiolch i’r Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pennaeth Gwasanaethau Plant a staff ar y gwaith tu ôl i’r adroddiad cadarnhaol.<br><br>Dywedodd yr Arweinydd y bu peth amheuaeth pan gymerwyd y mesurau tua 3 mlynedd yn ôl. Mae’r Cyngor ymhell o fod yn hunanfodlon ac roedd llawer iawn o waith i gael ei wneud. Fodd bynnag, mae’r Strategaeth yn awr yn gweld canlyniadau a gobeithiai’r Arweinydd y byddai’r gwaith hwn yn parhau.<br><br>Atebodd yr Arweinydd y sylwadau a wnaed o ran y gwaith ardderchog a gyflawnwyd mewn Gwasanaethau Plant. Mae staff Gwasanaethau Cymdeithasol ac ar draws y Cyngor yn parhau i weithio’n galed yn ystod y pandemig ac mae’r cyhoedd bob amser yn ddiolchgar.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi’r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 24** | **<u>DIWEDDARIAD AR Y BARTNERIAETH RANBARTHOL</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ac Opsiwn 2, sef cefnogi penderfyniadau y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. | |
| **No. 25** | **<u>EITEM(AU) EITHREDIG</u>** | |
| | **<u>EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION ADFYWIO A DATBLYGU ECONOMAIDD</u>** | |
| **No. 26** | **<u>CYNLLUN MEISTR BRYNMAWR A NANTYGLO</u>**<br><br>Datganodd Aelod Gweithredol Gwasanaethau Cymdeithasol fuddiant yn yr eitem yma, fodd bynnag caniatawyd iddo aros yn y cyfarfod yn ystod trafodaethau. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Ystyriwyd y farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol am y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra cynhaliwyd yr eitem hon o fusnes gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Tîm Cyfleoedd Adfywio.<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad ac Opsiwn 2 sy'n cynnwys gwybodaeth yn gysylltiedig â materion ariannol/busnes personau heblaw'r Awdurdod, ac i gymeradwyo canfyddiadau Cynllun Meistr Brynmawr a Nantyglo a chytuno ar y camau nesaf ar gyfer gwneud gwaith fel y manylir yn yr adroddiad. | |